



Mae gan Gymru gasgliad anhygoel ac unigryw o blanhigion sydd wedi esblygu oherwydd cyfuniad o ffactorau ffisgeol a dynol. Oherwydd yr amgylchedd tyner a llaith, a'r dirwedd hynod sydd wedi dylanwadu ar arferion amaethu, mae Cymru'n gartref i amrywiaeth ryfeddol o gynefinoedd. Yn eu plith mae coetiroedd hynafol ac Atlantaid, glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt, systemau arfordirol, gweundir, ffridd, mynydd-dir, clogwyni a dyfroedd croyw yn cynnwys gwahanol fathau o wlyptiroedd. Yn eu tro mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal cymunedau amrywiol a rhyngwladol bwysig o blanhigion blodeuol, cennau, mwsogl, llyisiau afu a ffyngau.

Mewn perthynas â'i maint mae Cymru'n cynnal yr amrywiaeth gyfoethocaf o gennau drwy'r byd. Er fod Cymru'n cynrychioli dim ond 10% o gyfanswm arwynebedd tir Prydain, mae'r wlad fach hon yn cynnal 74% o'r cennau sydd wedi eu cofnodi yn yr ynysoedd hyn <http://wales-lichens.org.uk>. Ond ar waethaf pwysigrwydd byd eang Cymru mae ei chennau dan fygythiad o hyd oherwydd cyfuniad o ffactorau sy'n deillio o weithgareddau dynol. Mae'n wirioneddol bwysig ein bod ni'n deall arwyddocâd cennau, a'r rhan y maen nhw'n ei chwarae yn ein bywydau, os ydym am eu gwarchod i'r dyfodol. Mae Plantlife Cymru, gyda chefnogaeth partneriaid, yn anelu at sicrhau bod llawer iawn o bobl yn meithrin y ddealltwriaeth hon. Mae Cynllun Prentisiaid Plantlife - CENNAD - yn cynnig cyfle gwych i gynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad pobl drwy raglen arbenigol o weithgareddau hyfforddiant ac addysg.

Mae Cynllun Prentisiaeth Cen Plantlife Cymru - sef CENNAD - yn agored i bawb, drwy gyflwyno cais ym mis Mawrth 2016. Cynigir cyrsiau hyfforddiant rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2018. Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar gennau sy'n tyfu ar goed, yn enwedig rhywogaethau sy'n gysylltiedig â choedwigoedd Atlantaid a choed sy'n tyfu ar ochr ffyrdd. Bydd ein rhaglen yn cynnig amrywiaeth o ddulliau dysgu yn cynnwys gweithdai a diwrnodau hyfforddiant yn y maes, gwaith arolwg ar safleoedd, mentora arbenigol, astudio adre', sesiynau meicrosgôp, archwilio casgliad teithiol o sbesimenau, cefnogaeth ar ebost a thrwy wefan 'Lichens of Wales', gwaith grwpiau rhanbarthol a chefnogaeth partneriaid. Byddwn yn adeiladu ar arfer da o gynlluniau prentisiaeth tebyg ar hyd a lled y DU.

Bydd pob prentis yn cael llawlyfr, chwyddwydr bychan, cemegion ar gyfer profion smotiau a deunyddiau dysgu eraill. Bydd modd i brentisiaid ddefnyddio meicrosgopau drwy drefniant lleol gyda phartneriaid, neu yn ystod diwrnodau hyfforddiant. Byddwn yn trefnu mynediad i goedwigoedd a pharciau lleol ar gyfer

gwaith astudio, drwy gydweithio gyda phartneriaid sy'n cefnogi'r cynllun prentisiaid. Bydd hyn yn cyfrannu at weithgaredd a fydd yn fuddiol i'r prentisiaid a'r partneriaid fel ei gilydd. Wrth i brentisiaid ddod i arfer gyda safleoedd penodol, a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, byddant yn gallu rhannu eu cofnodion gyda phartneriaid y cynllun, a rhai sy'n gyfrifol am ddehongli a rheoli'r safleoedd hyn.

Bydd disgwyl i'r prentisiaid ymrwymo i 2 flynedd o hyfforddiant dan y cynllun hwn, a gwneud ymdrech i fynychu pob sesiwn hyfforddiant, a neilltuo amser bob wythnos i hyfforddi eu hunain. Byddwn yn annog yr holl brentisiaid i gwrdd a rhannu profiadau yn rheolaidd, o fewn y clwstwr agosaf o brentisiaid (Gogledd Orllewin Cymru, Gogledd Ddwyrain Cymru, Canolbarth Cymru, Sir Benfro, Caerdydd a'r Cymoedd).

Mae enw'r cynllun, sef 'CENNAD', yn chwarae ar y gair 'Cen'. Os gwnawn ni sefyll yn stond a sylwi'n ddigon craff, gall cennau adrodd a rhannu negeseuon a straeon am y ffyrdd y maen nhw wedi cael eu rheoli yn y gorffennol ac am ddylanwad ac effaith yr amgylchedd arnynt. Fel rhan o'r hyfforddiant byddwn yn esbonio pwysigrwydd cennau fel rhan o hanes, tirweddau ac ecosystemau Cymru ac yn ceisio cynyddu dealltwriaeth o'u hanghenion a'u sensitifrwydd.

Bwriad y cynllun yw hwyluso partneriaethau hirdymor a chysylltiadau cryf gyda safleoedd rhanbarthol, ar gyfer pob un o'r prentisiaid pan ddown nhw i ddiwedd eu cyfnod ym Mawrth 2018. Mae Plantlife Cymru'n ddiolchgar i bob un o'r partneriaid am eu cefnogaeth ar gyfer y cynllun hwn, ac i Lywodraeth Cymru am ei ariannu. Mae pob croeso i bartneriaid newydd ymuno â ni.

Yn cydfynd â Chynllun Prentisiaeth Cennad byddwn yn diweddarau gwefan Lichens of Wales (<http://wales-lichens.org.uk/>) ac yn ychwanegu adnoddau i helpu prentisiaid a dysgwyr newydd i adnabod a deall cennau.

Eisiau gwybod mwy? Cysylltwch gyda:

Tracey Lovering

Plantlife Cymru Lower Plants and Fungi Officer Wales/

Wales Plant Link Cymru (PLinC) Officer

Swyddog Planhigion Diflodau a Ffyngau Cymru/ Swyddog PLinC Cymru

Ffôn Iôn/Mobile: 07710 235706 Swyddfa/Office: 01654 781225

Tracey.Lovering@plantlife.org.uk

Line drawings by Alan Orange



Os gwelwch yn dda yn gwneud cais am brentisiaeth ar-lein - Dyddiad cau: 11 Ebrill, 2016 <https://www.surveymonkey.co.uk/r/GX2B79L>